



Porthaethwy – Mynedfa Ynys Môn  
Menai Bridge – Gateway to Anglesey

**Menai Bridge Civic Society** is updating its records, photographs and Website to make them more accessible to members. We will try to add to these regularly throughout the year and publish extracts with your Newsletter. New contributions are always welcome, as is help with identifying people in photographs.

### Memories from the Civic Society

We are celebrating our 40th Birthday this year and would like you to join in by letting us have your photos, memories of life in the town in the 1960s and 1970s and especially of the activities and events organised by the Society and other local groups and clubs. Photos may be e-mailed, brought to meetings or posted to the Secretary.

# ATGOFION O'R BORTH

## Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy

### Menai Bridge and District Civic Society

### MEMORIES OF MENAI BRIDGE

#### Memories of Menai Bridge

Volume 7

#### Memories of Pre-war holidays in Menai Bridge

I first visited Menai Bridge in about 1936. We stayed in a cottage with its feet in the water of the Menai Bridge beach. The beach really was a beach and was a more attractive area than it is now. Sand was brought in at the beginning of every summer and spread on the beach for the enjoyment of everybody. These days so many more people have cars and are not reliant on getting their amusements on their own doorstep, so they go to the sand and it does not have to be brought to them! The cottage, Manadwyn, was so low to the water that it was not unusual for the sea to come in at Spring tides, but this was recognized by the presence of drainage holes at floor level for the sea to go out again, leaving virtually no damage.

There was one main room upstairs with eating and sitting areas, a coal-fired stove (not for cooking) and two ropey old sagging beds where our parents slept. There was also a second bedroom up on the same floor where there were two more old sagging beds and we children slept there -my middle brother and myself feet-to-feet at either end of one of the beds. Between the two upstairs rooms there was a concrete stairway to the downstairs where there was a lovely large larder, a coal cellar, a kitchen and a bath. The cooking was done with town gas, as was the lighting of the whole house. As the cottage was built in such a low place ,we had to cook in the middle of the day because the gas pressure was not high enough to use lights and cooker at the same time. The gasworks was where the Rugby field is now ,at about the same level as the cottage. The gas gave a very evocative smell to the cottage which

I feel I would still recognise even after this length of time.

The toilet (a proper flush one) was in a lean-to outside the front door and to save us having to go visiting it during the hours of darkness, we had chamber pots. One of my first memories is the traumatic one of getting a splinter in a very awkward place (a doctor had to extract it) as I slid on one of the old telegraph poles round the beach in Carreg yr Halen—one of those that lay between the upright poles which were joined by rope from one to the other, marking the area that was then considered safe for children swimming.

Other memories concern catching crabs from the windows at not-quite-high tide, jumping and diving from the windows at high Spring tides and being totally enthralled by the constantly changing land and seascape as the water came and went.

In those days there was much more commercial traffic on the water than there is now, although I cannot remember any tall ships going through. Most of the traffic was under steam. It is only later on, in the 50s and 60s, that I can remember pleasure boats going on the rocks (the Platters). The commercial traffic probably knew the area far too well to make such a serious error. What a lovely place it still is. Long may development stay away and peace remain.

Bridget M. Gledhill.



The Bathing Beach at the turn of the century—Manadwyn in the background.

See our Website at  
[www.menaibridgecivicsociety.org.uk](http://www.menaibridgecivicsociety.org.uk)



Llun cynharach (?) – Manadwyn yn dadfeilio.

**Atgofion am wyliau cyn y rhyfel ym Mhorthaethwy**

O gwmpas y flwyddyn 1936 oedd y tro cyntaf i mi ymweld â'r Borth. Mi arhoson ni mewn bwthyn oedd â'i draed yn y dŵr ar draeth Porthaethwy. Roedd y traeth yn draeth go iawn ac yn lle mwy deniadol nag y mae rŵan. Roedden nhw'n dod â thywod i mewn ar ddechrau pob haf a'i daenu ar y traeth i bawb ei fwynhau. Y dyddiau yma mae gan bawb eu ceir felly a ddim yn dibynnu ar gael eu difyrrwch ar garreg y drws, felly maen nhw'n mynd at y tywod ac nid y tywod yn dod atyn nhw!

Roedd y bwthyn, Manadwyn, mor isel wrth y dŵr fel nad oedd hi'n anarferol i'r môr ddod i mewn ar lanw mawr, ond deliwyd â hyn drwy osod tyllau draenio ar lefel y llawr i'r môr fynd allan eto, heb nemor ddim difrod. Roedd un prif ystafell i fyny'r grisiau gyda llefydd bwyta ac eistedd, stôf lo (ond ddim ar gyfer coginio) a dau hen wely pantog lle cysga'i rhieni. Roedd ail lofft i fyny ar yr un llawr lle'r oedd dau wely pantog arall ac yno y cysgem ni'r plant - fy mrawd canol a minnau draed wrth draed bob ochr i un o'r gwelyau. Rhwng y ddwy ystafell i fyny, roedd grisiau concrit yn mynd i lawr lle'r oedd pantri mawr hyfryd, seler lo, cegin a bath. Roedd y coginio'n cael ei wneud gyda nwy y dref, a felly hefyd y cai'r tŷ cyfan ei oleuo. Gan fod y bwthyn wedi'i adeiladu mewn lle mor isel, roedd yn rhaid i ni goginio ynganol y dydd oherwydd nad oedd pwysedd y nwy yn ddigon uchel i ddefnyddio'r golau a'r popty yr un pryd. Roedd y gwaith nwy lle mae'r maes Rygbi yn awr, tua'r un lefel â'r bwthyn. Roedd y nwy'n dod â rhyw aroglau atgofus i'r bwthyn a dwi'n teimlo y byddwn yn eu nabod hyd yn oed ar ôl yr holl amser.

Roedd y toiled (un oedd yn fflysiō'n iawn) y tu allan, yn groes i ddrws y ffrynt ac i'n harbed rhag gorfol mynd yno yn nhrymder y nos, roedd gennym botiau dan y gwely.

Mae un o'm hatgofion cyntaf yn un trawmatig, sef cael fflewlyn mewn lle lletchwith iawn (roedd yn rhaid cael meddyg i'w dynnu) wrth i mi lithro ar un o'r hen bolion telegraff o amgylch y traeth yng Ngarreg yr Halen – un o'r rheiny oedd yn gorwedd rhwng y polion syth a oedd yn cael eu huno â'i gilydd gan raff, i nodi'r fan yr ystyrid y pryd hynny oedd yn addas i blant nofio. Mae atgofion eraill yn cynnwys casglu cranciau o'r ffenestri pan nad oedd hi eto'n benllanw, neidio a phlymio o'r ffenestri yn y llanw mawr a chael fy nghyfareddu'n llwyr â'r tir a'r môr a oedd yn newid drwy'r amser wrth i'r dŵr fynd a dod.

Yn y dyddiau hynny roedd llawer mwy o drafnidiaeth fasnachol ar y dŵr nag sydd heddiw, er allai ddim cofio unrhyw gychod uchel yn pasio. Roedd y rhan fwyaf o'r llongau yn rhai stêm. Dim ond yn ddiweddarach, yn y 50au a'r 60au, y cofiaf gychod pleser yn mynd ar y creigiau (y Platters). Mae'n debyg fod y llongau masnachol yn adnabod yr ardal yn llawer rhy dda i wneud camgymeriad mor ddifrifol.

Mae'r ardal yn dal mor hyfryd ag erioed. Parhaed y datblygwyr i gadw draw ac i'r heddwch aros yno.

Bridget M. Gledhill

**Mae Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy yn diweddaru ei chofnodion, ffotograffau a'i Gwefan er mwyn ei gwneud yn haws i'r aelodau eu gweld. Byddwn yn ceisio ychwanegu at y rhain yn gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn cyhoeddi pigion gyda'ch Cylchlythyr.**

**Mae croeso mawr bob amser i gyfraniadau newydd, yn ogystal â help i adnabod pobl yn y lluniau.**

Byddwn yn dathlu'n Penblwydd yn 40 yn ddiweddarach eleni a hoffem i chi ymuno yn y dathlu drwy anfon eich lluniau, atgofion am fywyd yn y dref yn y 60au a'r 70au ac yn arbennig y gweithgareddau a'r digwyddiadau a drefnwyd gan y Gymdeithas a grwpiau a chlybiau lleol eraill. Gallwch e-bostio lluniau, dod â nhw i'r cyfarfodydd neu eu postio i'r Ysgrifennydd.

**Ewch i'n Gwefan yn  
[www.menaibrige.civicsociety.org.uk](http://www.menaibrige.civicsociety.org.uk)**